



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein

Caniatâd ar gyfer Asiant / Asiant Coedwigaeth / Undeb Ffermio a Chymdeithas Ffermwyr

ADRAN A – I'w llenwi gan Asiant / Asiant Coedwigaeth / cynrychiolydd Undeb Ffermio:

Teitl Masnachu CRN Asiant/
Asiant / Undeb Ffermio: Undeb Ffermio:

Llofnodwch isod i gadarnhau eich bod yn cytuno i gyflawni'r rolau isod wrth ddefnyddio'r gwasanaeth Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein ar ran y busnes ffermio a enwir yn Adran B.

Enw (mewn priflythrennau): _____ **Llofnod:** _____ **Dyddiad:** ____/____/____

ADRAN B - I'w llenwi gan y Cwsmer:

Rolau- Dim ond caniatâd i weld manylion eich busnes fferm, ceisiadau, dogfennau a gohebiaeth cysylltiedig sydd gan yr asiant/undeb amaethyddol

Ticiwch pa rolau ychwanegol yr hoffech i'r asiant / undeb ffermio a enwir yn Adran A eu cyflawni

Newid Manylion Busnes	Cwblhau Hawliadau	Llofnodi Contract (*Amherthnasol i Undebau Ffermio)	Cyflwyno Hawliadau (*Amherthnasol i Undebau Ffermio)	Gweld Gwybodaeth Ariannol	Rheoli Hawliau

Teitl Masnachu CRN Cwsmer:
Cwsmer: _____

Byddwn yn gohebu Ar-lein

Dewis ddull hysbysu: E-bost: SMS/Testun: E-bost ac SMS/Testun:

Cyfeiriad Rhif ffôn
E-bost: symudol:

Datganiad – Rwy'n cadarnhau fy mod yn awdurdodi'r asiant neu'r undeb ffermio a enwir uchod i gyflawni'r rolau a nodir uchod wrth ddefnyddio gwasanaeth Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein ar fy/ein rhan.

Deallaf, pan fydd yr asiant neu'r undeb ffermio a enwir uchod yn cwblhau a/neu'n cyflwyno ffurflenni cais ar-lein ar fy/ein rhan, bod fy/ein busnes ffermio yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau y cedwir at y Datganiadau a'r Ymrwymadau sy'n berthnasol i'r ffurflenni cais hynny.

Enw (mewn priflythrennau): _____ **Llofnod:** _____ **Dyddiad:** ____/____/____

Nodiadau:

Dewis ddull cyfathrebu

Dyma sut y byddwch yn derbyn eich llythyrau gan Lywodraeth Cymru. Anfonir pob gohebiaeth Ar-lein drwy eich cyfrif RPW Ar-lein.

Dewis ddull hysbysu

Dyma'r dull y bydd Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein yn ei ddefnyddio i'ch hysbysu bod dogfen / llythyr newydd wedi'i ychwanegu at eich cyfrif, a bod angen i chi fewngofnodi i'w ddarllen. Gallwch ddewis E-bost, SMS (Neges Testun) neu'r ddau.

Rolau

Mae'r tabl Rolau yn eich galluogi i nodi'r pethau rydych am i'ch asiant neu eich undeb ffermio ei wneud neu ei weld. Bydd yr wybodaeth hon yn ein galluogi i sefydlu'r union fath o fynediad rydych yn gofyn amdano. (Noder nad yw rhai o'r rolau hyn ar gael ar hyn o bryd, ond byddant yn cael eu darparu, yn raddol, erbyn 2014.)

Nodir isod y gwaith y gallwch ei bennu i'ch asiant neu gynrychiolwyr eich undeb ffermio:

- **Newid Manylion Busnes** – Bydd hyn yn galluogi eich asiant neu gynrychiolwyr eich undeb ffermio i wneud newidiadau i fanylion eich busnes a ddelir yn eich cyfrif ar-lein. Os byddant yn newidiadau mawr byddwn yn anfon hysbysiad o'r newid i gyfeiriad gohebu eich busnes ffermio. Ac eithrio cywiriadau sillafu syml ac ati, rydym yn ystyried mai newidiadau mawr yw newidiadau i bartneriaid/unigolion awdurdodedig, prif gyswllt, rolau/cysylltiadau busnes neu drydydd parti, cyfeiriad gohebu, prif gyfeiriad fferm, teitlau masnachu a hysbysiad o farwolaeth.
- **Cwblhau Hawliadau** – Bydd hyn yn eu galluogi i gwblhau unrhyw ffurflenni cais i Daliadau Gwledig Cymru ar-lein ar eich rhan. Gallai hyn fod yn eich presenoldeb neu beidio. **Nid** yw'r rôl hon yn golygu y gallant gyflwyno'r ffurflenni cais unwaith y byddant wedi'u cwblhau.
- **Llofnodi Contract** – Bydd hyn yn caniatáu i asiantwyr lofnodi Contractau Glastir ar eich rhan. ***SYLWER: Mae'r rôl hon yn berthnasol i asiantwyr yn unig. Ni chaiff undebau ffermio hawlio taliadau ar-lein ar ran cwsmeriaid. Os bydd tic yn cael ei roi yn y blwch hwn ar gam gan undeb ffermio , caiff ei ddiystyru.**
- **Cyflwyno Hawliadau** – Bydd hyn yn eu galluogi i gyflwyno unrhyw ffurflenni cais i Daliadau Gwledig Cymru ar-lein ar eich rhan. ***NODER: Mae'r rôl hon yn berthnasol i asiantwyr yn unig. Nid oes modd i undebau ffermio gyflwyno hawliadau ar-lein ar ran cwsmer. Os byddwch yn ticio'r blwch hwn mewn camgymeriad, mewn perthynas ag undebau ffermio, byddwn yn ei ddiystyru.**

Os hoffech i'ch asiant gwblhau a chyflwyno eich ffurflenni cais ar-lein, bydd angen i chi dicio'r **ddwy** rôl, sef Cwblhau Hawliadau a Chyflwyno Hawliadau. Byddwch yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw geisiadau a gwblhawyd a/neu a gyflwynwyd ar-lein ar eich rhan yn gywir ac yn gyflawn.

- **Gweld Gwybodaeth Ariannol** – Bydd hyn yn galluogi eich asiant neu gynrychiolwyr eich undeb ffermio i weld eich gwybodaeth ariannol ar-lein, e.e. llythyrau talu, llythyrau gordalu a thaliadau a wnaed i chi.
- **Rheoli Hawliau** – Bydd hyn yn galluogi eich asiant neu gynrychiolwyr eich undeb ffermio i weld gwybodaeth am eich hawliau o dan Gynllun y Taliad Sengl (SPS) a chychwyn y broses o

drosglwyddo'ch hawliau ar-lein. Anfonir hysbysiad o unrhyw geisiadau a wneir i drosglwyddo (neu osod ar brydles) i gyfeiriad gohebu eich busnes ffermio.

Dychwelwch y ffurflenni i: Taliadau Gwledig Cymru, Blwch Post 251, Caernarfon, LL55 9DA.